RHONDDA CYNON TAF








**Cyngor RCT**

# Asesiad Perfformiad Panel

## 1.0 Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Yn unol â'r dyletswyddau perfformiad dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, comisiynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – (y Cyngor) Asesiad Perfformiad Panel (APP) trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

1.2 Cwblhawyd yr asesiad ar y safle dros gyfnod o bedwar diwrnod a ddechreuodd ar 7 Hydref ac a ddaeth i ben ar 10 Hydref 2025 gyda chyflwyniad o adborth i'r Cyngor yn egluro'r prif ganfyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

1.3 Cafodd yr asesiad ei gynnal yn seiliedig ar y ddogfen gwmpasu a gytunwyd gan y Cyngor, y cylch gorchwyl a gytunwyd a methodoleg APP CLlLC, a ddatblygwyd gyda'r sector. Mae methodoleg APP CLlLC yn darparu fframwaith trosfwaol: nid yw pob trywydd holi yn rhoi cyfarwyddyd, ond maent yn rhoi arweiniad i'r panel ar y meysydd a allai gael eu harchwilio i fodloni'r ddyletswydd statudol. Fodd bynnag dylai i ba raddau y bydd y panel yn archwilio'r meysydd hyn fod yn gymesur â chwmpas y Cyngor ond yn ddigonol i alluogi'r Panel i ddod i gasgliad.

1.4 Yn unol â'r canllawiau statudol, nid archwiliad nac arolygiad yw'r APP ac nid yw'n ceisio dyblygu'r gwaith a wneir gan reoleiddwyr a chyrff eraill. Er bod y panel wedi cynnal asesiad corfforaethol, nid oedd yr asesiad hwn yn un trwyadl a dylid ei ystyried ochr yn ochr â ffynonellau sicrwydd eraill fel hunanasesiad y cyngor ei hun, adolygiadau archwilio mewnol ac adolygiadau archwilio a rheoleiddio allanol.

1.5 Wrth baratoi at yr APP, bu i'r Cyngor fesur cwmpas eu gofynion er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn cynnig y gwerth mwyaf ac yn cael yr effaith fwyaf posibl ar y Cyngor. Mae'r meysydd penodol roedd y Cyngor eisiau canolbwyntio arnynt i'w gweld ym mharagraff 3.2.

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cryno o ganfyddiadau'r panel wedi'u hadrodd drwy eithriad.

## 2.0 Y Panel

2.1 Comisiynwyd y cymheiriaid canlynol gan CLlLC i gynnal yr asesiad. Cytunwyd ar y detholiad o gymheiriaid yn ôl disgresiwn y Cyngor, ar sail addasrwydd eu sgiliau a'u profiad:

- Cadeirydd Annibynnol: Karen Jones cyn Brif Weithredwr Cyngor Castell-nedd Port Talbot ac ymgynghorydd annibynnol.

- Uwch Aelod o'r Cymheiriaid: Y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby, Arweinydd Cyngor Sir Fynwy

- Uwch Swyddog o'r Cymheiriaid: Jake Morgan, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

- Cymar o'r Sector Cyhoeddus, Preifat neu Wirfoddol Ehangach: Nicola Steuer, Dirprwy Brif Weithredwr yn Powertochange.org.uk

2.2 Cefnogwyd y panel gan Lyndon Puddy (Rheolwr APP) ac Emily Griffiths, Uwch Swyddog Cefnogi o Dîm Gwelliant CLILC.

**3.0 Cwmpas a Dull**

3.1 Roedd gofyn i'r panel asesu i ba raddau y mae'r Cyngor:

- Yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol.
- Yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, effeithlon ac effeithiol; ac
- Yn gweithredu trefniadau llywodraethu effeithiol i sicrhau'r uchod.

3.2 Nododd y Cyngor y meysydd canlynol y byddai barn cymheiriaid arnynt yn werthfawr fel rhan o'r asesiad yn y meysydd canlynol:

- **Dangos effaith a chanlyniadau ar gyfer ein cymunedau**
- **Datblygu Gwytnwch Cymunedol**

3.3 Wrth gynnal yr asesiad, fe gynhaliodd y panel adolygiad o'r ddesg o ddogfennau, data, adroddiadau allanol a gwybodaeth berthnasol arall gan y Cyngor. Roedd y rhan honno o'r adolygiad a gynhaliwyd ar y safle'n cynnwys cyfres o gyfarfodydd unigol a grwpiau ffocws gyda'r budd-ddeiliaid canlynol:

- Arweinydd y Cyngor, Dirprwy Arweinydd ac Aelodau Cabinet Gweithredol
- Arweinwyr yr Wrthblaid
- Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu
- Y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain
- Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a phrif Swyddogion eraill y Cyngor
- Aelodau o'r Gwrthbleidiau
- Ystod o Aelodau etholedig (noder fe gawsant i gyd eu gwahodd i gwrdd â'r panel)
- Staff
- Undebau Llafur
- Busnesau lleol
- Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)
- Cymdeithas Dai Trivallis
- Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg
- Y Sector Gwirfoddol
- Arweinydd a Phrif Weithredwr CBS Merthyr
- Cadeirydd/Is-gadeirydd: Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Panel Dinasyddion (Preswylwyr)
- Rhwydweithiau Cymdogaeth
- Grwpiau Ieuenctid a Grŵp Ymgynghorol Pobl Hŷn
- Prif Weithredwr Rhanbarth Dinas Caerdydd
- Aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

## 4.0 Cyd-destun Lleol

4.1 Mae Rhondda Cynon Taf yng nghymoedd De Cymru ac mae'n gorchuddio 424 cilomedr sgwâr, gan ymestyn o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd i Brifddinas Caerdydd yn y de. Mae'r Cyngor yn ffinio ag ardaloedd cynghorau Merthyr, Powys, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Castell-nedd Port Talbot, Caerdydd a Bro Morgannwg. Cafodd ardal breswyl Rhondda Cynon Taf ei datblygu yn bennaf mewn ymateb i ddarganfod a chloddio glo a chynhyrchu porslen yn y 19eg ganrif, sydd wedi gadael treftadaeth ddiwydiannol, gymdeithasol a diwylliannol gyfoethog yn yr ardal (cwmpas Rhondda Cynon Taf). Mae'n cynnwys pump o gymoedd: y Rhondda Fawr, y Rhondda Fach, Cynon, Taf ac Elái, yn ogystal ag ardaloedd sydd i ffwrdd o'r cymoedd.

4.2 Y Cyngor yw'r trydydd Awdurdod Lleol mwyaf yng Nghymru ac amcangyfrifwyd fod y boblogaeth yn 241,178 o breswylwyr (Stats Cymru 2023) a 103,300 o Aelwydydd (Cyfrifiad 2021) sy'n creu cymunedau amrywiol gydag anghenion a dyheadau gwahanol. Mae demograffeg oed yr ardal yn cynnwys oed canolrifol o 41 oed (Cyfrifiad 2021) a phoblogaeth hŷn sy'n cynyddu, gyda 19.9% o'r preswylwyr yn 65 oed a hŷn (Stats Cymru 2023). Mae gan y Cyngor yr ail boblogaeth fwyaf o blant 0-15 oed ar draws yr holl awdurdodau yng Nghymru (Stats Cymru 2023).

4.3 Yng Nghyfrifiad 2021 dywedodd 12.4% o breswylwyr Rhondda Cynon Taf eu bod yn gallu siarad Cymraeg (dogfen gwmpasu Rhondda Cynon Taf). Er yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (17.8%), roedd Rhondda Cynon Taf yn un o'r ychydig o awdurdodau i ddangos cynnydd mewn siaradwyr Cymraeg ers y Cyfrifiad blaenorol, gan adlewyrchu'r ymrwymiad cryf i strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg a'r Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg yn Rhondda Cynon Taf.

4.4 Mae gan y Sir ychydig o'r ddemograffeg sy'n profi'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Yn 2019 roedd gan Rhondda Cynon Taf gyfradd amddifadedd cymharol uchel sef 32% ac roedd ganddo'r ail nifer uchaf o blant ifanc yn byw yn yr amgylchiadau hyn o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill (dogfen gwmpasu Rhondda Cynon Taf). Mae hyn yn cyfrannu at y galw uchel parhaus ac yn cynyddu'r cymhlethdod i'r Gwasanaethau Plant a phwysau pellach ar draws y gwasanaeth gofal cymdeithasol; mae'r Cyngor yn rhoi rhai o'r rhesymau dros brofiad teuluoedd diamddiffyn yng nghyd-destun effaith hirdymor y pandemig a'r argyfwng costau byw.

4.5 Mae preswylwyr Rhondda Cynon Taf ar gyfartaledd mewn iechyd gwaeth nac ar draws Cymru, sydd o bosibl â chysylltiad â gorffennol diwydiannol yr ardal. Mae 76% o'r holl breswylwyr yn disgrifio eu hiechyd fel "da iawn" neu "dda", 15.7% fel "gweddol", a 8.3% fel "gwael" neu "wael iawn" (Cyfrifiad 2021). Yn 2021 77.0 oed oedd disgwyliad bywyd yn ardal y Cyngor ar gyfer dynion a 80.5 oed ar gyfer merched, ond dim ond 57.1 a 60.7 oedd disgwyliad bywyd iach, sy'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru.

4.6 Ar draws y Fwrdeistref Sirol mae'r 66.2% o'r gweithlu cyflogedig mewn cyflogaeth llawn amser sy'n uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2022). Gellir priodoli hyn yn rhannol i gymysgedd diwydiannol yr ardal leol ac yn benodol y diwydiant gweithgynhyrchu, sy'n cyfrif am 13.8% o'r holl swyddi (y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2022). Fodd bynnag, y sector cyhoeddus yw'r cyflogwr mwyaf o

bell ffordd yn yr ardal gyda 33.7% o swyddi'r diwydiant gwasanaethu mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, iechyd ac addysg (y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2022).

4.7 Mae Rhondda Cynon Taf yn gartref i 6,835 o fusnesau gweithredol a 169 o fentrau cymdeithasol sy'n chwarae rhan hanfodol mewn cefnogi'r economi leol (y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2023). Mae gan y Cyngor hanes cryf o gefnogi datblygiad a thwf busnes gan gynnwys drwy gyflawni strategaethau adfywio a chynlluniau creu lleoedd yn llwyddiannus a gweinyddu cyllid grant. Mae gan Rhondda Cynon Taf gyfradd geni busnes uchel (11.8% o'i gymharu â 10.3% yng Nghymru), fodd bynnag mae'r gyfradd cau busnesau hefyd wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diweddar y tu hwnt i'r cyfartaledd yng Nghymru.

4.8 Mae gan y Cyngor hanes cryf o fuddsoddiad cyfalaf ac mae disgwyl i hyn barhau. Mae hyn wedi cynnwys darparu buddsoddiad sylweddol mewn adeiladau ysgolion fel rhan o Raglen Cymunedau Cynaliadwy Dros Ddysgu Llywodraeth Cymru, datblygu cyfleusterau gofal ychwanegol, yn ogystal â buddsoddi mewn cynlluniau ffyrdd, rhaglen barhaus o gynnal a chadw ar gyfer adeileddau a buddsoddiad mewn gwaith lliniaru llifogydd i fynd i'r afael ag effaith gynyddol amodau tywydd garw ar gymunedau lleol.

4.9 Ar draws Rhondda Cynon Taf mae yna ystod eang o gyfleusterau cymunedol a seilwaith y gall preswylwyr eu defnyddio. Mae gan y Cyngor gynnig cryf o ran twristiaeth ac mae'n gweithredu profiad glofaol Glo Cymru yn y Parc Treftadaeth a Lido Cenedlaethol Cymru ac mae'n bartner ym Mharc Rhanbarthol y Cymoedd gyda safleoedd mynediad ym Mharc Gwledig Cwm Dâr a Pharc Ynysangharad. Hefyd mae atyniadau lleol gan gynnwys Zip World a'r Bathdy Brenhinol yn ymgysylltu'n agos â Strategaeth Twristiaeth Rhondda Cynon Taf.

## 5.0 Trefniadaeth Wleidyddol

5.1 Mae'r Sir wedi'i rhannu yn 46 ward ac mae ganddi 75 o Gynghorwyr. Y Blaid Lafur yw'r grŵp sydd â mwyafrif yn y Cyngor.

| | |
|---|---|
| Y Blaid Lafur | 58 |
| Plaid Cymru - The Party of Wales | 8 |
| Annibynnol | 6 |
| Plaid Geidwadol Cymru | 2 |
| Y Blaid Lafur a'r Blaid Gydweithredol | 1 |

5.2 Arweinydd y Cyngor yw'r Cynghorydd Andrew Morgan OBE. Y Dirprwy Arweinydd yw'r Cynghorydd Maureen Webber BEM.

5.3 Yr ail grŵp gwleidyddol mwyaf yw Plaid Cymru ac mae'r Cynghorydd Karen Morgan wedi ei phenodi'n Arweinydd yr Wrthblaid.

5.4 Mae Cabinet y Cyngor yn cynnwys 8 Cynghorydd, gan gynnwys yr Arweinydd a’r Dirprwy Arweinydd.

## 6.0 Trefniadaeth Gorfforaethol

6.1 Prif Weithredwr y Cyngor yw Paul Mee ac mae wedi bod yn y swydd yn barhaol ers Tachwedd 2022.

6.2 Mae’r Prif Weithredwr yn arwain Uwch Dîm Arwain o ddeg o swyddogion gweithredol ac mae gan bob un gyfrifoldeb dros gyfarwyddiaeth y Cyngor (isod). Caiff pob Cyfarwyddiaeth ei chefnogi trwy Bennaeth Gwasanaeth a strwythur uwch reolwyr.

- Barrie Davies - Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Grŵp – Cyllid, Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen
- Stephen Williams - Cyfarwyddwr Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth
- Christian Hanagan - Cyfarwyddwr Gwasanaeth, y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
- Richard Evans - Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
- Louise Davies - Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Diogelu a Gwasanaethau Cymunedol
- David Powell - Cyfarwyddwr Ystadau Corfforaethol
- Simon Gale - Cyfarwyddwr Ffyniant a Datblygu
- Gaynor Davies - Cyfarwyddwr Addysg a’r Gwasanaethau Cynhwysiant
- Andy Wilkins - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
- Neil Elliott - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

6.3 Yn Ebrill 2024 cytunodd y Cyngor ar ei Gynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024/30 sy’n gwreiddio Newid Hinsawdd yng ngwaith y Cyngor ymhellach trwy ei bedwar nod Lles newydd sef Pobl a Chymunedau, Gwaith a Busnes, Natur a’r Amgylchedd a Diwylliant, Treftadaeth a’r Gymraeg. Mae’r Cyngor wedi strwythuro ei Gynllun Corfforaethol gan ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a’r pum ffordd o weithio.

6.4 **Gweledigaeth y Cyngor yw**:

*'Y gall yr holl bobl, cymunedau a busnesau dyfu mewn Bwrdeistref Sirol sy'n iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle gallant gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd o'u bywydau a'u gwaith, nawr ac i'r dyfodol'.*

*6.5* Mae'r Cyngor yn diffinio ei amcanion lles newydd fel:

- **Pobl a Chymunedau –** Cefnogi a grymuso preswylwyr a chymunedau Rhondda Cynon Taf i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus.

- **Gwaith a Busnes –** Helpu i gryfhau economi Rhondda Cynon Taf a'i helpu i dyfu.

- **Natur a'r Amgylchedd –** Rhondda Cynon Taf sy'n wyrdd a glân a sy'n gwella ac yn diogelu amgylchedd a natur Rhondda Cynon Taf.

- **Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg –** Cydnabod a dathlu gorffennol, presennol a dyfodol Rhondda Cynon Taf.

6.6 Yn y Cynllun Corfforaethol mae'r Cyngor yn datgan fod ei ymagwedd fel a ganlyn

*"Mae ein cynllun newydd yn adeiladu ar y llwyfan cryf a osodwyd gan ein dau gynllun blaenorol. Er mwyn cyflawni'r hyn mae ein cynllun newydd yn ei nodi mae angen i'n staff, Cynghorwyr, preswylwyr, cymunedau a phartneriaid weithio i'r un cyfeiriad i gyflawni ein gweledigaeth a rennir. Mae'r heriau a wynebir ar draws gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol yn golygu fod arnom angen nawr yn fwy nac erioed staff sy'n wybodus, yn cael eu cefnogi ac wedi eu hyfforddi'n dda a Chynghorwyr a all ymateb i'r heriau yn y dyfodol gyda rhaglen waith uchelgeisiol. Wrth i gyllidebau'r sector cyhoeddus barhau o dan bwysau ac wrth i'r gofynion ar ein gwasanaethau gynyddu, mae'r angen i weithio gyda chymunedau ac ar draws ffiniau sefydliadol i gyflawni'r canlyniadau gorau i'n preswylwyr nawr ac yn y dyfodol yn fwy nac erioed".*

Yn sail i'r ymagwedd hon mae'r **Gwerthoedd** a ddatganwyd gan y Cyngor:

*'Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith ac yn gosod safonau ac uchelgais uchel i ni ein hunain i gyflawni a chael effaith gadarnhaol ar bawb yn Rhondda Cynon Taf'.*

## 7.0 Heriau Lleol a Chenedlaethol

7.1 Fe lwyddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i fod â sefyllfa ariannol gytbwys yn 2024/25. Mae pwysau yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn parhau y risgiau mwyaf sylweddol i sefydlogrwydd ariannol, gan adlewyrchu'r heriau cenedlaethol ehangach yn y galw am ofal cymdeithasol a chostau ar draws Cymru gyfan. Mae ysgolion wedi eu blaenoriaethu gyda phwysau a nodwyd yn cael eu hariannu'n llawn a dyraniad ychwanegol o £11.2 miliwn.

7.2 Mae gan y Cyngor gymunedau amrywiol ac mae ganddo rai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae hwn yn faes o bryder i'r cyngor a'i uchelgais yw i gryfhau gwytnwch cymunedol i gefnogi annibyniaeth ymhellach. Mae gan Rhondda Cynon Taf broblemau tebyg i rannau eraill o Gymru, gyda mwy o alw ar wasanaethau o ystyried fod incymau yn is a bod teuluoedd yn dal i gael eu heffeithio yn dilyn y pandemig a'r argyfwng costau byw parhaus.

7.3 Nododd y panel fod iechyd preswylwyr yn Rhondda Cynon Taf ar gyfartaledd yn waeth nac ardaloedd anniwydiannol eraill ar draws Cymru. Mae gan 'gymunedau'r cymoedd' gyda'u gorffennol diwydiannol a oedd â chynhyrchiant uchel, ardaloedd lle disgrifir cymunedau fel rhai difreintiedig gyda chanlyniadau gwael o ran iechyd a disgwyliad bywyd. Daw hyn i'r amlwg fel pwysau ar wasanaethau a arweinir gan alw fel y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Cyngor yn ymateb ac yn ei gynllun corfforaethol newydd mae'n rhoi pwyslais ar gryfhau gwytnwch cymunedol, ochr yn ochr â gwaith datblygu arall i ddeall yr effeithiau a'r canlyniadau'n well. Mae gan yr ymagwedd hon y potensial i fod yn drawsnewidiol, gan helpu i dargedu gwasanaethau yn well, wedi ei gefnogi drwy dystiolaeth fel y dystiolaeth a grëwyd drwy'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd.

## 8.0 Cryfderau a Meysydd Arloesi

8.1 **Arweinyddiaeth aeddfed gan wleidyddion a swyddogion –** Fe nododd y panel fod gan Rhondda Cynon Taf fel Cyngor arweinyddiaeth wleidyddol a phroffesiynol aeddfed gyda pherthnasoedd wedi eu seilio ar barch ar y ddwy ochr gan ganolbwyntio ar wella bywydau'r dinasyddion sy'n byw yn yr ardal. Mae'r Arweinydd yn goruchwylio Cabinet sefydledig sy'n dangos fod ganddynt afael clir ar eu portffolios. Clywodd y panel fod yr arweinyddiaeth wleidyddol yn ymgymryd ag ymagwedd gynhwysol lle caiff holl aelodau'r Cyngor eu hannog i gymryd rhan. Clywodd y panel '**Mae'r Arweinydd wedi creu enw cadarn o fod yn sefyll dros breswylwyr Rhondda Cynon Taf, gan greu newid ac mae hyn wedi ei gysylltu â'r cymunedau ac yn hygyrch'.** Mae gan yr arweinyddiaeth wleidyddol berthynas gref a chydweithredol gyda'r Uwch Dîm Arwain a arweinir gan y Prif Weithredwr. Roedd yn amlwg i'r panel fod gan yr holl aelodau o'r Uwch Dîm Arwain 'berchnogaeth gorfforaethol' o flaenoriaethau'r Cyngor. Roedd y panel o'r farn fod yr Uwch Dîm Arwain yn broffesiynol, gwybodus ac yn gefnogol, gan greu amgylchedd sy'n canolbwyntio ar gyflawni ond hefyd yn annog arloesedd.

8.2 **'Tîm Rhondda Cynon Taf'** – Clywodd y panel gan y budd-ddeiliaid mewnol ac allanol fod cydweithio ac ymagwedd 'Tîm Rhondda Cynon Taf' wedi ei wreiddio yn niwylliant y Cyngor. Rhannwyd hyn drwy ystod o gyfarfodydd gyda budd-ddeiliaid gwahanol. Hefyd clywodd y panel gan fudd-ddeiliaid ar draws y sbectrwm gwleidyddol – yn lleol ac yn rhanbarthol – eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yng ngwaith y Cyngor.

Roedd enghraifft a roddwyd yn cynnwys ymateb y Cyngor i argyfyngau lle cefnogodd Aelodau a Swyddogion ei gilydd yn effeithiol wrth ymateb i bwysau ac argyfyngau. Siaradodd yr aelodau Gweithredol ac Anweithredol am yr **''ymagwedd Un Cyngor'** a oedd wedi eu gwasanaethu'n dda a gwnaethant sylwadau ar y modd yr oedd pob adran ac aelod etholedig yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r ymateb. Mae dyfyniad pellach gan yr Uwch Dîm Arwain yn cyfleu hyn gan nodi **''Mae yna synnwyr cryf o le**

**yma yn Rhondda Cynon Taf – teimlad o berthyn lle rydym eisiau gwneud y gorau i bawb’’**.

8.3 **Fframwaith Cynllunio a Pherfformiad** - Mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio a pherfformiad aeddfed sydd wedi ei wreiddio ar draws y Cyngor. Mae’r Prif Weithredwr yn cymryd rôl arweiniol mewn rhoi’r fframwaith ar waith, gan gadeirio cyfarfodydd herio perfformiad yn flynyddol gyda phob un o’r Prif Swyddogion. Ystyrir y fframwaith hwn fel sbardun newid cadarnhaol gan y Penaethiaid Gwasanaeth. Dywedodd Prif Swyddogion tra bo’r buddsoddiad o ran amser wrth baratoi ‘sesiynau herio’ yn uchel, mae’r budd o ganlyniad i’r amser a dreulir gyda’r Prif Weithredwr yn cael ei groesawu ac yn galluogi holl adrannau’r Cyngor i alinio gyda blaenoriaethau’r Cyngor.

Canfu’r panel fod y fframwaith cynllunio a pherfformiad yn galluogi’r Cyngor i adnabod ei hun yn dda ac i gael dealltwriaeth glir o’i gyfleoedd yn y dyfodol a’r heriau. Mae’r fframwaith cynllunio a pherfformiad wedi ei ddatblygu ymhellach yn ddiweddar i ymateb i argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru a gwelodd y panel dystiolaeth fod y Cyngor yn gwella ei ddealltwriaeth o’r ‘effaith a’r canlyniad a ddisgwylir’ o’r gwaith mae’n ei wneud.

Hefyd gwelodd y panel dystiolaeth o newidiadau cyfatebol yn cael eu gwneud i’r ffordd mae’r Cyngor yn cyfathrebu ei waith i’r cyhoedd, ond mae’r Cyngor yn cydnabod fod yna fwy i’w wneud i helpu pobl i ddeall rôl y Cyngor ac i gynnwys dinasyddion mewn newid o ran polisi a gwasanaeth.

O ganlyniad gall y Cyngor ddangos ‘llinyn aur’ yn nhermau’r ymagwedd tuag at gynllunio gwasanaeth a’r cynllun ariannol tymor canolig.

8.4 **Cynllunio Ariannol a Buddsoddiad** - Mae’r Cyngor yn wynebu’r un heriau â chynghorau eraill yng Nghymru lle mae’r galw am wasanaethau yn fwy na’r adnoddau sydd ar gael. Mae’r Cyngor yn rheolaidd yn diweddaru ei gynllun ariannol tymor canolig i amcangyfrif graddau’r heriau mae’n eu hwynebu ac mae wedi mabwysiadu ymagwedd lle mae datrysiadau posibl i gau bwlch y gyllideb yn cael eu hasesu a’u gweithredu yn barhaus.

Mantais deall pwysau’r gyllideb yn gynnar yn y cylch o osod y gyllideb yw i roi’r Cyngor mewn sefyllfa lle gall adnabod datrysiadau parhaus yn yr arfaeth i gefnogi’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac i ymgymryd ag ymgynghori ystyrlon ar newid sylweddol i wasanaeth a pholisi.

Clywodd y panel am gynlluniau’r Cyngor i ganolbwyntio fwy ar gynnal lles ei gymunedau a buddsoddi mewn camau ataliol fel rhan o’i gynllunio tymor canolig i’r hirdymor. Mae’r gwaith yn y camau cyntaf ac yn cael ei gefnogi gan brosiect y Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd ac mae gwaith yn cael ei wneud gan y swyddog Adran 151 i ddangos buddion economaidd buddsoddi mewn atal - gwaith sydd o ddiddordeb i rwydwaith ehangach y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yng Nghymru.

Mae’r cynllun ariannol tymor canolig hefyd yn amlinellu buddsoddiadau cyfalaf y Cyngor sydd wedi eu cynllunio. Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu parodrwydd i dderbyn risg sy’n galluogi’r Cyngor i ymateb i gyfleoedd newydd o ran buddsoddi mewn dull

hyblyg. Nodwedd benodol yw'r polisi i ddatblygu prosiectau sy'n barod. Mae hyn wedi golygu fod y Cyngor mewn sefyllfa dda i gymryd mantais ar y cyfleoedd cyllido newydd, yn aml gyda therfynau amser tynn ar gyfer gwneud ceisiadau.

Mae'r ymagwedd hon wedi galluogi datblygu rhaglen gyfalaf fwy sy'n darparu buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith ar draws ardal Rhondda Cynon Taf. Dywedodd timau sy'n gyfrifol am gyflawni'r rhaglen gyfalaf fod ganddynt ddigon o fuddsoddiad mewn capasiti a galluogrwydd i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei uchelgeisiau o ran ei raglen gyfalaf ac roeddent yn croesawu ymagwedd y Cyngor.

8.5 **Partneriaethau -** Clywodd y panel fod y Cyngor yn cynnig arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol, ond mae hefyd wedi buddsoddi'r amser i ddatblygu'r perthnasoedd pwysig hyn sy'n llawn ymddiriedaeth gyda'i bartneriaid a budd-ddeiliaid yn ehangach. Mae hyn yn creu synnwyr o gydweithio cynhwysol gan ganolbwyntio ar wella Rhondda Cynon Taf ar gyfer y bobl sy'n byw ac yn gweithio yma a sy'n ymweld â'r ardal.

Dywedodd partner '**Mae Paul (y Prif Weithredwr) wedi ymgymryd â rôl arwain glir yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac wedi rhoi siâp iddo, mae'n sicrhau ei fod ar gael, yn ymgymryd ag ymagwedd o gyd-gynhyrchu ac yn ceisio adborth'.** Siaradodd partneriaid allanol a budd-ddeiliaid eraill yn gadarnhaol yn ymwneud â pharodrwydd y Cyngor i weithio'n gynhwysol, gydag enghreifftiau'n cael eu rhoi o'r Cyngor yn rhannu ei adnoddau a'i arbenigedd yn y gofod partneriaeth er budd y cyhoedd yn ehangach. Mae hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan bartneriaid.

8.6 **Swyddogaethau craffu a sicrwydd a gaiff eu cefnogi'n dda –** Clywodd y panel fod gan y Cyngor swyddogaethau craffu a sicrwydd sy'n cael eu cefnogi'n dda a sydd â llawer o adnoddau. Nododd Aelodau a Swyddogion fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn weithgar iawn yn sicrhau fod aelodau'n gallu cael at y gefnogaeth maent ei hangen a chyflawni eu rolau'n effeithiol.

Clywodd y panel hefyd fod 'her' yn cael ei chroesawu gan aelodau o Weithrediaeth a swyddogion y Cyngor a bod yna ymateb cadarnhaol i argymhellion gan craffu gyda thystiolaeth o gamau dilynol mewn grym.

Fe glywodd y panel gan bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol fod craffu yn cael ei gymryd o ddifrif a bod cydbwysedd priodol rhwng craffu ar benderfyniadau cyn ac ar ôl eu gwneud gydag ychydig o waith i gefnogi datblygu polisi hefyd yn cael ei wneud.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei arwain gan Gadeirydd profiadol sy'n gweithio'n agos gyda'i bwyllgor er mwyn sicrhau fod y Pwyllgor yn cyflawni ei swyddogaeth. Dywedwyd fod gan y Pwyllgor berthynas dda gyda'r gwasanaeth archwilio mewnol ac Archwilio Cymru ac roedd yn hyderus yn y systemau llywodraethu mae'r Cyngor yn eu gweithredu.

8.7 **Caffael** – mae'r Cyngor wedi buddsoddi yn ei swyddogaeth gaffael, gan weithredu ymagwedd o 'ddatblygu ei staff mewnol' i sicrhau gweithlu digonol i gyflawni'r swyddogaeth. Mae gwaith gwella dros y blynyddoedd diweddar wedi galluogi'r Cyngor i wreiddio gofynion gwerth cymdeithasol yn ei gadwyn gyflenwi. Caiff tystiolaeth o ba mor dda mae cyflenwyr yn cyflawni'r ymrwymiadau hyn ei chynnwys yn y gwaith o fonitro contractau ac mae yna waith yn cael ei wneud i ddeall effaith yr ymagwedd hon

ar y gymuned yn ehangach. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymgorffori ymrwymiad sero net yn ei ymagwedd, gan ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau lleihau carbon gael eu cyflwyno gan gyflenwyr. Dywed y Cyngor ei fod yn bwriadu datblygu ei ymagwedd ymhellach drwy ehangu digideiddio ar draws y swyddogaeth a gwneud defnydd llawn o ymagweddau gwyddoniaeth data.

## 9.0 Crynodeb Gweithredol – Casgliadau Cyffredinol

9.1 Yn gyffredinol daeth y panel i'r casgliad fod Rhondda Cynon Taf yn Gyngor a gaiff ei gynnal yn dda a sy'n uchelgeisiol ac yn canolbwyntio ar wella bywydau ei ddinasyddion.

Dangosodd y Cyngor fod ganddo hanes cryf o gyflawni gydag ethos o welliant parhaus yn sail i hynny. Mae'r Cyngor yn gweithio i ddeall effaith a chanlyniadau ei waith yn well, gan symud o ymagwedd sy'n canolbwyntio ar wasanaeth i un sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac a fydd yn helpu i gyflawni ei uchelgais i gryfhau gwytnwch cymunedau.

Daeth y panel i'r casgliad ymhellach bod y Cyngor yn arfer ei swyddogaethau yn erbyn y dyletswyddau perfformiad yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.

9.2 Wrth gyflawni'r broses hon bu'r panel yn cwrdd (wyneb yn wyneb ac ar-lein) gydag ystod eang o fudd-ddeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys gweithrediaeth wleidyddol a swyddogion y Cyngor. Cafodd yr holl aelodau etholedig y cyfle i gyfrannu yn ogystal â staff y Cyngor, partneriaid, busnesau, Undebau Llafur a phreswylwyr. Rhannodd y panel y wybodaeth a gasglwyd yn y cyfarfodydd hyn a'r rhyngweithio a defnyddiodd y ddogfennaeth roedd wedi ei derbyn cyn yr ymweliad safle i ffurfio ei ganfyddiadau a'i gasgliadau cyffredinol sydd wedi eu hamlinellu yn y briff isod. Mae'r panel hefyd wedi awgrymu meysydd ar gyfer eu gwella y dylai'r Cyngor eu hystyried y cyfeirir atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

9.3 Nododd y panel y nodweddion cadarnhaol canlynol :-

- Arweinyddiaeth wleidyddol a swyddogion proffesiynol sy'n gryf, sefydlog a phrofiadol a sy'n dangos ymrwymiad a rennir tuag at wella canlyniadau ar gyfer dinasyddion Rhondda Cynon Taf.

- Perthynas effeithiol, barchus a phroffesiynol rhwng Aelodau a Swyddogion gyda lefelau priodol o her adeiladol.

- Fe ddatblygodd 'diwylliant' cynhwysol a chefnogol dros y ddegawd ddiwethaf sydd wedi creu'r amodau ar gyfer mwy o gydweithio gyda phartneriaid, preswylwyr a busnesau. Mae hyn wedi creu cyfleoedd ar gyfer newid trawsnewidiol – nododd y panel ymagwedd 'Tîm Rhondda Cynon Taf" mewn sawl cyfarfod.

- Mae systemau llywodraethu clir ac effeithiol mewn grym sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu heffeithiolrwydd. Nododd y panel fod cryfder penodol y Cyngor yn ymwneud â'i ymagwedd tuag at gynllunio ariannol sy'n galluogi'r Cyngor i sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr o'i bwysau a nodi

datrysiadau cyllidebol posibl parhaus yn yr arfaeth. Mae’r ymagwedd hon yn hwyluso ymgysylltiad ac ymgynghori yn ymwneud â newid yn gynnar gydag Aelodau a Swyddogion a gyda’r gymuned yn ehangach.

- Hefyd nododd y panel ‘Linyn Aur’ clir o’r cynllun corfforaethol, y cynllun ariannol tymor canolig tuag at gynllunio gwasanaeth, gyda her briodol gan y Prif Weithredwr a’r uwch aelodau etholedig ar y lefel gorfforaethol. Roedd y panel yn credu fod y Cyngor yn hunanymwybodol gydag ymagwedd aeddfed tuag at y modd y mae’n mynd i’r afael â newid.

- Ni nododd y panel unrhyw bryderon difrifol gan reoleiddwyr allanol. Mae yna dystiolaeth fod y Cyngor yn ymateb fel mater o drefn i ganfyddiadau ac argymhellion archwilwyr allanol a mewnol a bod camau gweithredu a gynigir mewn ymateb i ganfyddiadau yn destun craffu a sicrwydd. Mae’r panel yn credu fod trefniadau craffu a sicrwydd y Cyngor yn gryf ac yn effeithiol.

- Dywedodd Aelodau eu bod i gyd yn cael eu hannog i gymryd rhan yng ngwaith y Cyngor. Dywedir fod perthnasoedd gwleidyddol ar draws y Cyngor yn dda, er gwaethaf gwahaniaethau gwleidyddol, gyda ffocws clir ar gyflawni ar gyfer cymunedau Rhondda Cynon Taf.

  Roedd y panel yn credu fod hyn yn dangos aeddfedrwydd gwleidyddol ar draws y sbectrwm gwleidyddol. Dywedodd yr holl aelodau eu bod yn cael eu cefnogi’n dda gan y swyddogaeth gwasanaethau democrataidd gyda Phwyllgor Gwasanaethau Democrataidd cryf sy’n gweithio i sicrhau fod aelodau’n cael y gefnogaeth maent ei hangen i gyflawni eu rolau. Dywedodd aelodau etholedig fod drws yr Arweinydd ar agor i bawb a bod y Prif Weithredwr i’w weld a’i bod yn hawdd mynd ato.

- Cyngor uchel ei barch – Clywodd y panel gan ystod o staff a chynrychiolwyr Undebau Llafur fod yr arweinyddiaeth (gwleidyddol a swyddogion) a’r swyddogaeth adnoddau dynol yn cael ei barchu’n fawr. Hefyd fe fu’r panel yn cyfarfod cynrychiolwyr o sawl rhwydwaith staff a sefydlwyd i wella rhaglen amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant y Cyngor. Roedd cynrychiolwyr yn gadarnhaol ynglŷn ag ymrwymiad y Dirprwy Arweinydd a’r Prif Weithredwr, datblygiad y rhwydweithiau a’r gefnogaeth roeddent yn ei derbyn gan y rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Dywedwyd fod y profiad o newid a oedd yn cael ei weithredu ar draws yr haenau rheoli fodd bynnag yn amrywiol gyda mwy o waith i’w wneud i wreiddio bwriad polisi’r Cyngor yn ymarferol.

- Gwerthfawrogi gan bartneriaid – clywodd y panel gan ystod o bartneriaid (e.e. iechyd, y sector gwirfoddol, Cymdeithas Dai Trivallis, sefydliadau cymunedol) fod y Cyngor gan amlaf yn uchel ei barch a bod partneriaid yn croesawu cyfleoedd i gydweithio gyda’r cyngor ar flaenoriaethau a rennir. Fe wnaeth partneriaid sylwadau hefyd ar ansawdd yr arweinyddiaeth wleidyddol a phroffesiynol o ‘le’ a ddangosir gan y Cyngor. Mae partneriaid yn gwerthfawrogi parodrwydd y Cyngor i rannu ei adnoddau a’i arbenigedd yn y maes partneriaeth ac i geisio siapio polisi ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol.

- Cyngor sy’n barod i wneud penderfyniadau anodd – fe welodd y panel dystiolaeth e.e. cludiant o’r cartref i’r ysgol, newidiadau i lety ar gyfer pobl hŷn, gweithgor y Cyngor yn arwain sgyrsiau gyda’r gymuned i egluro newidiadau mewn polisi neu ddarpariaeth gwasanaeth sydd ei angen i gael cydbwysedd ariannol. Tra roedd yna dystiolaeth glir o ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc roedd yn anodd dangos tystiolaeth o’r effaith ar y penderfyniadau a wnaed o’r ymgysylltiad hwn. Mae’r cyngor yn bwriadu adeiladu ar y gwaith hwn gyda mwy o ymgysylltiad uniongyrchol ym mhroses ddemocrataidd plant a phobl ifanc.

  Nododd y panel hefyd y parodrwydd i dderbyn risg a fabwysiadwyd gan y Cyngor i ysgogi ariannu datblygu prosiectau parod sydd wedi galluogi ehangu rhaglen gyfalaf y Cyngor.

  Daeth y panel i’r casgliad fod hwn yn Gyngor sy’n barod i wneud penderfyniadau anodd tra’n parhau i ganolbwyntio ar ei nodau hirdymor. Nododd y panel fod y Cyngor yn dechrau datblygu ei ymagwedd tuag at gyd-gynhyrchu, yn unol â’i ddyheadau hirdymor. Enghraifft a roddwyd oedd ailgynllunio’r ddarpariaeth gwasanaeth dydd i oedolion gydag anabledd dysgu.

9.4 Fodd bynnag mae yna rai heriau’n wynebu’r Cyngor. Ar adeg yr Asesiad Perfformiad Panel, roedd y Cyngor ar gamau cynnar iawn rhaglen newid diwylliannol hirdymor. Mae’r ymagwedd yn ceisio cryfhau gwytnwch cymunedol fel bod pobl yn mwynhau gwelliant mewn lles, yn gallu cefnogi ei gilydd yn well ac o ganlyniad yn dod yn llai dibynnol ar wasanaethau’r Cyngor dros amser. O’r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr Asesiad Perfformiad Panel, roedd y panel o’r farn fod y Cyngor mewn lle da i symud ymarfer i gefnogi grymuso a galluogedd unigolion a chymunedau ond mae hyn yn gofyn am ymagwedd fwy bwriadol ar gyfer hyn ar draws y Cyngor cyfan er mwyn iddo gael yr effaith y mae’r cyngor yn ei ddymuno a bod yn wir drawsnewidiol.

Roedd hefyd yn amlwg i’r panel fod angen i’r Cyngor gymryd mwy o amser i ddod i ddealltwriaeth glir a rennir o’r amcanion hirdymor y mae’n ceisio eu cyflawni. Bydd cynnwys partneriaid a chymunedau ar gam ffurfiannol y broses yn sicrhau fod yna wir gyfle iddynt siapio’r rhaglen newid, i ddeall yr amcanion ac iddynt sicrhau fod y mecanweithiau mewn lle i alluogi’r newid yn llawn.

9.5 O fewn y ddeddfwriaeth mae’n ofynnol i’r panel asesu a yw’r Cyngor:

- yn gweithredu ei swyddogaethau yn effeithiol
- yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon a
- bod yna lywodraethu effeithiol mewn grym i sicrhau’r uchod.

Hefyd mae’r Cyngor wedi nodi’r meysydd canlynol lle byddai mewnwelediad cymheiriaid yn cael ei werthfawrogi fel rhan o’r asesiad yn y drefn ganlynol:

- Dangos effaith a chanlyniadau ar gyfer ein cymunedau a

- Datblygu Gwytnwch Cymunedol.

9.6 Canfu'r panel fod y Cyngor fel corff corfforaethol yn gweithredu ei swyddogaethau'n gyffredinol yn erbyn y dyletswyddau perfformio o fewn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.

9.7 Nododd y panel gyfleoedd i wella a gaiff eu cynnwys yn Adran 10 ac 11 yr adroddiad hwn. Mae'r meysydd gwella hyn wedi eu datblygu mewn ysbryd gwelliant a arweinir gan y sector a'u bwriad yw cefnogi'r Cyngor ar ei daith barhaus tuag at welliant.

## 10.0 Trosolwg o'r Canfyddiadau

### 10.1 Llywodraethu Effeithiol

Nid oes yna unrhyw argymhellion ar gyfer Llywodraethu Effeithiol.

Nododd y panel arweinyddiaeth wleidyddol a phroffesiynol gref, sefydlog a phrofiadol sy'n gosod diwylliant cadarnhaol a chynhwysol gan ganolbwyntio'n gadarn ar 'wneud ein gorau dros ein cymunedau'. Mae hyn yn treiddio drwy waith y Cyngor yn fewnol ond roedd hefyd yn amlwg yn ei waith gyda phartneriaid allanol.

Clywodd y panel a chydnabod ymhellach fod y Cyngor wedi datblygu a meithrin yr ymagwedd hon dros y ddegawd ddiwethaf a bod y Cyngor mewn lle cwbl wahanol a mwy cadarnhaol o ganlyniad. Dyfynnodd un Aelod **''Rydym yn ffodus o fod â diwylliant sy'n galluogi aelodau i gymryd rhan yn ystyrlon''** yng ngwaith y Cyngor, enghraifft yw creu'r gyllideb flynyddol lle croesawyd cyfranogiad yr Aelodau yn y broses honno ac ystyriwyd fod y broses yn dryloyw. Dywedwyd fod drws yr Arweinydd ar agor i bawb a hefyd clywodd y panel fod y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion yn barchus a phroffesiynol.

Daeth y panel i'r casgliad fod y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac amgylchedd cefnogol ar gyfer gweithlu'r cyngor. Nododd dyfyniad gan aelod o'r Uwch Dîm Arwain **''Rydym yn Uwch Dîm Arwain cryf, rydym yn gweithio gyda'n gilydd yn arbennig pan fo pethau'n mynd yn dynn, enghraifft o hyn oedd ein gwaith yn ystod y stormydd diweddar, lle bu i ni i gyd weithio gyda'n gilydd''.**

Nododd y panel fod y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion yn barchus a phroffesiynol. Soniodd pawb oedd mewn swyddi lle roeddent yn arwain am greu diwylliant lle yr anogwyd arloesedd, mae yna awyrgylch 'dim bai' ac mae yna ymrwymiad a rennir i gyflawni dros gymunedau Rhondda Cynon Taf.

Mae'r panel o'r farn bod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu da ac mae wedi sefydlu ystod eang o bwyllgorau, yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, sy'n galluogi'r Cyngor i reoli ei fusnes. Mae'r panel hefyd o'r farn fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gadarn ac yn effeithiol a bod y trefniadau craffu yn gryf ac yn cael eu cefnogi gan yr holl grwpiau gwleidyddol.

Cydnabu'r panel fod gan y Cyngor weledigaeth glir, wedi ei chefnogi gan Gynllun Corfforaethol a adolygwyd yn ddiweddar, sy'n anelu i yrru gwell canlyniadau ar gyfer ei ddinasyddion drwy symud o ymagwedd sy'n seiliedig ar wasanaeth i ymagwedd

sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sydd â'r potensial i fod yn drawsnewidiol. Mae'r Cyngor wedi deall a chefnogi systemau llywodraethu yn dda i hwyluso cyflawni uchelgeisiau'r Cyngor. Mae gan yr Arweinyddiaeth ymrwymiad cryf tuag at 'leoli' ac mae hyn yn cael ei werthfawrogi, nid yn unig yn fewnol ond gan ei bartneriaid a budd-ddeiliaid strategol ehangach.

Adroddwyd fod hunan-adolygiad y Cyngor ei hun yn dda ar gyfer llywodraethu cyffredinol, defnyddio adnoddau ac yn dda yn nhermau perfformiad yn erbyn ei 4 amcan lles.

Mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi adolygu trefniadau cynllunio gwasanaeth a rheoli perfformiad. Mae cynllunio gwasanaeth yn dangos 'Llinyn Aur' i'r cynllun corfforaethol a'r cynllun ariannol tymor canolig. Mae swyddogion yn ystyried fod y cyfarfodydd her blynyddol a arweinir gan y Prif Weithredwr yn rhai da ac yn sicrhau aliniad. Mae'r ymagwedd yn helpu uwch swyddogion i adlewyrchu ar y cwestiwn 'felly beth' ac i ddisgrifio'r effaith a'r canlyniadau a geisir.

Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi ailgynllunio ei adroddiadau perfformiad i ddod â'r holl ddata ynghyd mewn 'dangosfwrdd' ac mae hyn yn cael ei gefnogi'n gynyddol gan astudiaethau achos i ddangos effaith i gyd-fynd ag allbynnau a mesurau proses. Adroddir ar berfformiad i'r Cabinet yn chwarterol gyda phwyllgorau craffu hefyd yn defnyddio'r adroddiadau perfformiad i ddylunio eu rhaglenni gwaith eu hunain. Hefyd mae yna adolygiad blynyddol o berfformiad cyffredinol y Cyngor. Gwelodd y panel dystiolaeth o welliant parhaus ar draws gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor wedi ei hwyluso gan ymagwedd sydd wedi ei gwreiddio tuag at newid.

Mae ymagwedd y Cyngor tuag at gynllunio ariannol a buddsoddiad yn cyd-fynd â'r cyfeiriad strategol a'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu parodrwydd i dderbyn risg sy'n defnyddio rhai adnoddau cyfalaf i ddatblygu prosiectau 'parod' yn yr arfaeth ac mae hyn wedi arwain at Raglen Gyfalaf bwysig sy'n gwella seilwaith ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Clywodd y panel yr ymddiriedir yn yr Arweinydd, y Cabinet a'r Uwch Dîm Arwain a'u bod yn cael eu parchu gyda phartneriaid strategol ehangach a budd-ddeiliaid. Clywodd y panel fod y Cyngor yn bartner pwysig mewn lleoliadau rhanbarthol ac yn gallu gweithio ym mlaenoriaethau ar y cyd ehangach y partneriaethau amrywiol. Caiff parodrwydd Rhondda Cynon Taf i gamu i rolau arwain ac i rannu adnoddau ac arbenigedd ei groesawu gan fudd-ddeiliaid allanol.

Mae'r Cabinet yn sefydlog gydag aelodau profiadol sy'n deall eu portffolios Cabinet. Clywodd y panel fod yna berthynas waith broffesiynol dda rhwng y Swyddogion a'r Cabinet. Mae newid corfforaethol diweddar wedi alinio portffolios y Cabinet yn well gydag adrannau ac mae wedi ei gyflawni gyda llawer o gonsensws.

Fe fu'r panel yn cyfarfod aelodau etholedig ar draws y grwpiau gwleidyddol. Gan fwyaf cafodd perthnasoedd eu disgrifio fel rhai cadarnhaol, parchus ac aeddfed tra'n cydnabod gwahaniaethau pleidiol.

Cafodd perthnasoedd rhwng y Weithrediaeth wleidyddol a'r Aelodau eu disgrifio yn bennaf fel rhai da gyda'r Arweinydd a'r Cabinet yn hygyrch i Arweinwyr yr Wrthblaid

a'r aelodau yn ehangach. Cafodd ymagwedd drws agored ei hamlygu rhwng yr Arweinydd, y Cabinet a'r aelodaeth wleidyddol yn ehangach. Dywedodd Aelod **''Mae'r arweinyddiaeth wleidyddol yn gryf ac yn uchel ei pharch ac rydym yn hynod o ffodus i fod ag arweinyddiaeth wleidyddol o ansawdd yn Rhondda Cynon Taf''.**

**10.2 Yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, effeithlon ac effeithiol**

Yn gyffredinol, daeth y panel i'r casgliad bod y Cyngor yn defnyddio ei adnoddau'n effeithiol.

Roedd sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer 2024/25 yn gytbwys.

Daeth y panel i'r casgliad fod Rhondda Cynon Taf yn Gyngor sydd â swyddogaethau cynllunio ariannol corfforaethol a rheoli cryf mewn grym. Roedd y panel o'r farn fod y broses o gynllunio ac adolygu cylch proses y gyllideb yn hytrach nac ymgymryd â'r gweithgareddau hyn fel ymarfer unwaith y flwyddyn o gryfder penodol i'r Cyngor ac yn cael ei werthfawrogi gan staff ac Aelodau fel ei gilydd.

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn parhau i ddangos bylchau strwythurol, gyda diffygion a ragwelir dros y tair blynedd nesaf yn ddarlun cyffredin ar draws Cymru. Mae'r Cyngor wedi bod yn glir tra bo cronfeydd wrth gefn yn darparu gwytnwch tymor byr nid yw'n ddatrysiad cynaliadwy. Caiff trawsnewid, effeithlonrwydd a mesurau atal eu hystyried gan y Cyngor fel elfennau sy'n ganolog i gau'r bwlch.

Ochr yn ochr â chynllunio refeniw, mae'r Cyngor wedi gosod rhaglen gyfalaf uchelgeisiol £225 miliwn ar gyfer 2025/26 i 2027/28, wedi ei anelu at gefnogi blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ac amcanion lles. Dyma raglen fuddsoddi fawr ond mae'n dibynnu ar gyllid allanol a derbyniadau cyfalaf sy'n gofyn am fonitro agos.

Yn gyffredinol mae'r Cyngor yn dangos rheolaeth ariannol tymor byr cryf a defnydd darbodus o gronfeydd wrth gefn. Ond mae ei gynaliadwyedd ariannol tymor hirach yn dibynnu ar gyflawni trawsnewid ar raddfa a chyflymder, gan leihau dibyniaeth ar gyllid untro a sicrhau monitro'r gwasanaeth a'r effaith cymunedol yn gadarn. Mae'r Cyngor wedi nodi cronfa wrth gefn 'buddsoddi i arbed' i gefnogi'r Cyngor i arloesi a thrawsnewid syniadau newydd ac ysgogi mentrau newydd fel rhan o'i ymateb i bwysau.

Mae'r Cyngor yn hunanymwybodol o'r pwysau. Mae ganddo brosesau a gweithdrefnau ariannol da mewn grym i barhau i fodelu effaith a rheoli ymateb ariannol. Ar 31 Mawrth 2025 roedd gan y Cyngor gyfanswm o £191.987 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn.

Mae gan y Cyngor systemau mewn grym sy'n nodi ac yn rheoli risg trwy ei gofrestr risg strategol. Adroddir yn chwarterol ar risg i'r Cabinet a chaiff risg ei hystyried ar draws y Cyngor ac nid dim ond yn y meysydd gwasanaeth.

Nododd y panel mai 'tîm Rhondda Cynon Taf' sy'n amlwg yn berchen ar yr ymagwedd tuag at gynllunio ariannol a gaiff ei chymryd gan y Cyngor. Mae yna ymgysylltiad gyda'r holl Aelodau ar y camau ffurfiannol o greu'r gyllideb ac mae'r ystyriaeth a roddir ar y

cyd i'r risg tuag at gynaliadwyedd yn enghraifft nodedig o gyfranogiad, ymgysylltiad ac atebolrwydd ariannol.

Nododd y panel fod y Cyngor wedi sicrhau capasiti a gallu o fewn ei swyddogaeth gaffael drwy gynllun 'datblygu staff yn fewnol' effeithiol o ran y gweithlu. Mae gwerth cymdeithasol ac ymrwymiad tuag at liniaru/newid yn yr hinsawdd wedi ei wreiddio yn ei ymarfer caffael. Mae'r Cyngor yn datblygu ei ymagwedd tuag at asesu effaith ymrwymiadau gwerth cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r gwaith ehangach mae'n ei wneud i gryfhau gwytnwch cymunedol.

Clywodd y panel fod tîm Adnoddau Dynol y Cyngor yn cael eu gwerthfawrogi ar draws y meysydd gwasanaeth a gyda'r Undebau Llafur. Mae yna bartneriaethau cymdeithasol cryf gyda'r Undebau Llafur, ymgysylltiad da a mynediad i'r tîm Adnoddau Dynol. Mae perthnasoedd proffesiynol wedi eu creu dros amser. Mae'r trefniadau yn dangos perthynas aeddfed sy'n cydnabod er nad yw partïon bob amser yn cytuno fod yna barodrwydd i wrando a hynny er lles y gweithlu a dinasyddion ac y bydd y Cyngor a'r Undebau Llafur yn gweithio drwy ddeialog agored i ddod i gytundeb ac i osgoi anghydfodau.

Mae gan y Cyngor hanes da o 'ddatblygu staff mewnol' ac mae'n falch o'r hyn mae wedi ei gyflawni o ran cyflogi pobl leol o fewn ei raglen brentisiaeth a'i raglen hyfforddi i raddedigion. Ystyrir fod y tîm Adnoddau Dynol yn ymatebol i'r anghenion a nodwyd gan wasanaethau ac maent yn cynnig cyfuniad o weithgareddau hyfforddi a datblygu ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu recriwtio a chadw ei weithlu ac mae'n gweld ychydig o gynnydd cadarnhaol mewn llenwi swyddi y mae'n anodd recriwtio ar eu cyfer. Bydd y newid diwylliannol mae'r Cyngor eisiau ei wneud yn golygu y bydd mwy o alw ar y tîm Adnoddau Dynol. Daeth y panel i'r casgliad fod angen sylw cynnar i strategaeth datblygu'r gweithlu i gefnogi'r newid diwylliannol a gynllunnir a bydd yn ystyriaeth bwysig i gefnogi'r rhaglen drawsnewid ac i alluogi'r swyddogaeth Adnoddau Dynol i addasu fel allai fod angen.

Clywodd y Panel fod yr arweinyddiaeth a ddangosir gan y Dirprwy Arweinydd a'r Prif Weithredwr i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei werthfawrogi gan y rhai hynny sy'n cymryd rhan yn y rhwydweithiau staff Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Roedd y rhai hynny a oedd yn cymryd rhan yn y rhwydweithiau yn teimlo fod y mecanweithiau rhwydwaith hyn yn bwysig a siaradodd cynrychiolwyr yn gadarnhaol am y gefnogaeth roeddent yn ei derbyn gan y rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae'r rhwydweithiau wedi bod mewn grym am gyfnodau amrywiol o amser. Soniodd cynrychiolwyr y rhwydweithiau am ddarlun cymysg ar draws haenau rheoli'r Cyngor yn nhermau gwreiddio ymrwymiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Cyngor. Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi sefydlu grŵp strategol i gefnogi cyflawni ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ac mae hyfforddiant yn cael ei gyflwyno ar draws y Cyngor.

Mae'r panel yn ystyried y byddai'r ymarfer ar draws y strwythur rheoli yn elwa o adolygiad pellach ac y dylai hyn gael ei gysylltu â chyflwyno hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae camau gweithredu pellach wedi eu cynllunio i sefydlu rhaglen i aelodau a fyddai'n gweithredu ochr yn ochr â hyn. Mae'r panel yn annog y Cyngor i wneud canolbwyntio ar hyn yn flaenoriaeth.

Clywodd y panel fod cyfathrebu ar draws y gweithlu wedi ei gryfhau drwy gyflwyno newyddlen y gweithiwr a blogiau. Canolbwyntir sylw ar sicrhau y gall pob aelod o staff gael mynediad at y cyfathrebu hwn, gan gynnwys y rhai hynny a allai fod wedi eu heithrio'n ddigidol. Nododd y panel nad yw'r cyfathrebu hwn yn cael ei ymestyn ar hyn o bryd i weithlu'r ysgol. Mae yna gyfarfodydd 100 uchaf wyneb yn wyneb rhwng rheolwyr canol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Arweinyddiaeth wleidyddol yn chwarterol. Mae hyn yn galluogi cyfathrebu uniongyrchol gyda'r grŵp staff hwn a allai gynnwys trafodaeth am sefyllfa'r Cyngor, heriau a llwyddiannau a chyfle i ddarparu adborth i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Weithdrediaeth. Clywodd y panel fod yna lawer yn mynychu'r rhain ac yr ystyrir fod y trefniadau yn dda.

Mae'r Cyngor yn cynnal uwchraddiadau i'r seilwaith gan gynnwys i'w system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid a'i wefan i wella profiadau cwsmeriaid. Mae tîm gyda'r gallu i adolygu ac ailddylunio prosesau busnes hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'r swyddogaethau digidol technegol. Bydd y gallu cynyddol hwn yn cefnogi uchelgeisiau trawsnewid y Cyngor yn uniongyrchol i wella profiad y defnyddiwr a lleihau costau. Mae gwaith i ddatblygu gallu gwyddor data hefyd ar y gweill, er yn llai aeddfed na'r swyddogaeth dechnolegol.

Mae'r Cyngor wedi dod â staff gyda sgiliau data ynghyd sydd nawr yn ffurfio sail gallu data corfforaethol newydd. Hefyd mae yna Gydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd sy'n cefnogi datblygu ymagweddau seiliedig ar dystiolaeth ac a arweinir gan wybodaeth. Dywedodd y Cyngor fod fframwaith data yn cael ei ddatblygu gyda chynlluniau i ddatblygu hwn yn strategaeth rheoli data mwy cyfannol. Mae gan y gwaith hwn y potensial i ffurfio conglfeini pwysig a all chwarae rhan allweddol mewn hwyluso'r newid diwylliannol mae'r Cyngor yn ceisio ei wneud fel nodir yn y Cynllun Corfforaethol diwygiedig.

Hyd yma nid yw'r rhaglen ddigidol wedi gwneud cyfraniadau sylweddol i leihau cost net gwasanaethau'r Cyngor. Dywedodd y swyddog Adran 151 y byddai angen mwy o ystyriaeth hollbwysig o flaenoriaethau digidol yn y dyfodol. I gefnogi'r gofyniad hwn mae newidiadau'n cael eu gwneud i'r mecanweithiau ar gyfer cytuno ar flaenoriaethau digidol a fydd yn cynnwys gwerthusiad gan swyddogion o fewn y swyddogaeth ariannol.

Nododd y panel enghraifft o arfer sy'n werth ei nodi yn y maes hwn -:

**Rheolaeth ariannol gref a chynllunio cyllidebol -** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ymagwedd barhaus i'r ffordd mae'n cynnal ei gynllunio ariannol, ac mae wedi symud oddi wrth ymarfer unwaith y flwyddyn. Mae'r ymagwedd hon yn galluogi'r Cyngor i fod yn barod ar gyfer nodi ac ymateb i bwysau'r gyllideb, sicrhau perchnogaeth o'r sefyllfa ariannol ymhlith holl aelodau'r Cyngor ac i ymgysylltu'n ystyrlon gyda'r rhai hynny sy'n cael eu heffeithio gan bolisi arfaethedig ac ymatebion gwasanaeth ar gamau ffurfiannol.

Yn gyffredinol mae'r panel yn ystyried fod Rhondda Cynon Taf wedi integreiddio ei gynllunio ariannol a'i gynllunio adnoddau yn ehangach gyda'r amcanion a nodir yn y Cynllun Corfforaethol. Gwelodd y panel sawl enghraifft lle roedd swyddogaethau cefnogi yn llwyr ymatebol i anghenion newidiol y gwasanaethau e.e. recriwtio a chadw,

prosiect y Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd, modelu ariannol gwaith ataliol. Wrth edrych tua'r dyfodol, mae yna dystiolaeth sy'n cefnogi swyddogaethau i ddeall y bydd angen iddynt addasu a datblygu os yw'r Cyngor i gyflawni ei raglen drawsnewid uchelgeisiol, fodd bynnag mae'r newidiadau fydd eu hangen eto i'w nodi yn glir a'u cytuno. Mae gan y panel y maes canlynol ar gyfer gwella/argymhelliad.

**Meysydd i'w Gwella/Argymhellion – Adnoddau**

Mae'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth bwysig i'r modd y bydd yn gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni ei uchelgais ar gyfer trawsnewid, gan gynnwys y capasiti y bydd ei angen i gyflawni'r newidiadau.

| | |
|---|---|
| 1. | Caiff y Cyngor ei annog i gymryd yr amser sydd ei angen i wreiddio ei ymagwedd mewn tystiolaeth ac i roi ystyriaeth gynnar i'r rôl y bydd angen i'r gweithlu, digidol, data a chyfathrebu ei chwarae i alluogi cyflawni'r newidiadau mae angen iddo eu cyflawni. |

## 10.3 Arfer swyddogaethau'n effeithiol

Nid oes yna unrhyw argymhellion ar gyfer arfer swyddogaethau.

## 11.0 Meysydd i ganolbwyntio arnynt a nodwyd gan y Cyngor

## 11.1 Dangos effaith a chanlyniadau ar gyfer ein cymunedau

**O ran cryfder:**

Roedd y panel yn ystyried fod y Cyngor mewn sefyllfa gref i fynd ymlaen â'r gwaith hwn ac roedd yn gefnogol i'r Cyngor wrth iddo ganolbwyntio ei gamau gweithredu a'i adnoddau i ddeall yr effeithiau a'r canlyniadau a gyflawnir ar gyfer dinasyddion yn Rhondda Cynon Taf yn well.

Nododd y panel fod y fframwaith rheoli perfformiad sydd gan y Cyngor mewn grym yn darparu llwyfan cadarn i nodi blaenoriaethau'n glir ac i gyflawni'r rhain drwy systemau llywodraethu'r Cyngor. Hefyd bydd y trosolwg ar y cyd drwy'r Prif Weithredwr, arweinyddiaeth wleidyddol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gyflawni o ran systemau cynllunio a darparu gwasanaeth y Cyngor yn cefnogi uchelgais y Cyngor i ddangos effaith a chanlyniad 'sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn'.
Nododd y panel ymhellach y bydd ymgymryd ag ymagweddau a arweinir gan dystiolaeth ar lefel gymunedol, gan ddefnyddio adnoddau fel ymagwedd y Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd, yn galluogi'r Cyngor i esblygu a chryfhau ei fesur o effaith a chanlyniad ar lefel gymunedol a bod yna awch clir gan Aelodau a phartneriaid ehangach i fod yn rhan ganolog o brofi effaith ar y lefel gymunedol. Nid yw hon yn diriogaeth glir i lywio trwyddi ac mae'r panel yn canmol y Cyngor am ymgymryd â'r ymagwedd ragweithiol hon.

**Yn nhermau her a gwelliant**

Mae'r Panel yn cydnabod fod rhai camau yn cael eu cymryd i ddatblygu swyddogaethau galluogi corfforaethol i gefnogi newid trawsffurfiol, ond mae'r gwaith hwn yn parhau ac nid yw wedi'i gwblhau.

Nid yw'r defnydd o ddata i ddeall effaith yn gyson ar draws y Cyngor ac mae'n faes y dylai'r Cyngor ei ddatblygu a'i ddatblygu'n gyflym. Gallai hyn gynnwys rhannu enghreifftiau o arfer cyfredol i ddangos y math o ymagweddau a allai gael eu defnyddio - e.e. 'sut beth yw da', er y gall y Cyngor fod eisiau arloesi ymhellach y tu hwnt i'r rhain.

Er mwyn cefnogi'r Cyngor yn y maes hwn, mae'r panel yn awgrymu fod y Cyngor yn symud tuag at ymagwedd sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn i fesur effaith a chanlyniadau. Bydd hyn yn gofyn am nodi a gwreiddio mesurau ansoddol a meintiol a fydd yn dangos safbwyntiau a phrofiadau preswylwyr a chymunedau. Gallai mesurau o'r fath gael eu gweithredu ar gyfer mesur canlyniadau gwasanaeth a gosod canlyniadau (er enghraifft p'un ai yw preswylwyr yn teimlo ei fod yn faes lle mae cymunedau yn cefnogi ei gilydd).

Dylai'r Cyngor ystyried yn ofalus sut beth yw'r mesurau hyn a sut maent yn effeithio ar waith y Cyngor.

Wrth sefydlu mesurau, mae'r panel yn awgrymu y dylai'r Cyngor gydweithio gyda phartneriaid a chymunedau. Mae'r panel hefyd yn cynnig fod y Cyngor yn creu dealltwriaeth fwy eglur o'r preswylwyr a'r cymunedau y maent yn ymgysylltu â nhw ar hyn o bryd a datblygu cynllun ar gyfer ymgysylltu'n ehangach gyda'r holl gymunedau, gan gynnwys grwpiau a gaiff eu tan gynrychioli ar hyn o bryd.

**Meysydd i'w Gwella/Argymhellion**

Mae'r Cyngor yn adeiladu ar ei fframwaith perfformiad cryf presennol i integreiddio ei waith ar ymgysylltu a gwytnwch cymunedol i fesur canlyniad ac effaith.

Mae'r Cyngor yn deall fod angen iddo fabwysiadu ymagwedd profi a dysgu i gyflawni'r newid mae eisiau ei wneud ac mae angen i hyn gael ei wneud ar y cyd gyda phartneriaid.

<table>
<tr><td>2.</td><td>Caiff y Cyngor ei annog i symud y broses hon yn ei blaen i ddatblygu'r sgiliau a'r gallu i'w alluogi i:
<ul>
<li>Weithio gyda chymunedau a phartneriaid i ddylunio eu mesurau effaith a chanlyniad ar lefel gymunedol a Bwrdeistref Sirol.</li>
<li>Mesur sut mae effaith a chanlyniad yn amrywio o ran demograffeg a daearyddiaeth.</li>
<li>Gwerthuso i ba raddau mae ymagweddau ymgysylltu presennol yn darparu ar gyfer ac yn annog cyfranogiad.</li>
</ul></td></tr>
</table>

**11.2 Datblygu Gwytnwch Cymunedol**

Ystyriodd y panel y maes hwn o ran y cryfderau, heriau a gwelliannau presennol sy'n wynebu'r Cyngor yn y maes hwn.

**O ran cryfder:**

Clywodd y panel fod ymrwymiad y Cyngor i feithrin gwytnwch cymunedol yn cael ei gefnogi'n dda. Rhannwyd tystiolaeth gref o hyn o drafodaethau'r panel ar draws y Cyngor, ei bartneriaid strategol ehangach, busnesau, y sector gwirfoddol a chymunedol a phreswylwyr.

Mae yna barodrwydd, yn wir dyhead, ymysg partneriaid i gydweithio gyda'r Cyngor ar y gwaith hwn. Er enghraifft gallai hyn fod drwy'r posibilrwydd o gyd gomisiynu gwasanaethau, alinio gwaith yn y meysydd ehangach o gydlyniant cymunedol a gwytnwch cymunedol a rhannu data ond nid yw cyfleoedd wedi eu cyfyngu i'r ychydig enghreifftiau hyn.

Mae gan y Cyngor hanes o berfformio'n dda mewn cyfnodau o argyfwng sydd wedi bod yn amlwg dros y blynyddoedd diwethaf gyda'r stormydd a enwyd sydd wedi achosi gwir ddifrod a gofid i gymunedau Rhondda Cynon Taf. Mae gan Rhondda Cynon Taf berthnasoedd gwaith sydd wedi datblygu'n dda o ran cydlynu ymateb mewn argyfwng ar draws ei bartneriaid, asiantaethau statudol, sectorau gwirfoddol, busnesau a gyda chymunedau Rhondda Cynon Taf ei hun. Nododd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth **''Mae ymddiriedaeth gyda chymunedau wedi ei feithrin drwy gamau gweithredu''** dyfyniad uniongyrchol wrth drafod ymateb ehangach y Cyngor i lifogydd.

Mae gan y Cyngor rai enghreifftiau da o seilwaith cymunedol a fydd yn gwasanaethu'r broses hon yn dda a gellir adeiladu arno, mae hyn yn cynnwys canolfannau cymunedol a rhwydweithiau cymdogaeth. Mae'r gefnogaeth mae'r Cyngor wedi ei darparu'n uniongyrchol i sefydliadau'r sector gwirfoddol, cymunedol, menter gymdeithasol a busnes cymunedol (er enghraifft drwy raglenni grantiau bach a thrwy Drosglwyddo Ased Cymunedol) yn darparu enghreifftiau cadarnhaol ymhellach o sut mae'r Cyngor eisoes yn helpu i greu'r amodau ar gyfer gwytnwch cymunedol drwy alluogi cymunedau i weithredu ac arwain newid yn lleol.

**Yn nhermau her a gwelliant**:

Mae'r Cyngor yn uchelgeisiol ac yn gweld gwir werth mewn cyflawni'r ymagwedd hon, ar gyfer y Cyngor a'i gymunedau. Mae'n alinio'n dda gyda'i ymagwedd tuag at ddarparu gwasanaeth sy'n creu effaith a'i symudiad tuag at ymagwedd sy'n creu mwy o effaith ac yn seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer mesur y newid mae'n ei greu ar gyfer cymunedau Rhondda Cynon Taf. Mae yna dystiolaeth o arfer cadarnhaol presennol mewn creu gwytnwch cymunedol, ond mae'r panel yn awgrymu nad yw hyn eto wedi dod ynghyd i siapio gweledigaeth gynhwysol a map trywydd ar gyfer cyflawni'r trawsnewid ar y raddfa a geisir.

Er mwyn cefnogi'r Cyngor i symud ymlaen mae'r panel yn awgrymu fod y Cyngor yn cymryd amser i gael mwy o eglurder o fwriad a datblygu dealltwriaeth a rennir o wytnwch cymunedol.

Yn dilyn ei adolygiad a'i drafodaethau mae'r panel yn dod i'r casgliad y byddai'r Cyngor yn elwa o ddatblygu mwy o eglurder mewn perthynas â pha ganlyniadau a geisir o ran gwytnwch cymunedol a beth fyddai'r ffordd orau o wireddu'r rhain.

Fel nodwyd uchod, mae gan y Cyngor sawl cryfder i adeiladu arno. Fodd bynnag mae ymgysylltiad y panel gyda phartneriaid, cymunedau, preswylwyr a phobl ifanc yn awgrymu fod angen i wytnwch cymunedol gael ei ymestyn y tu hwnt i'r gallu i wrthsefyll ac addasu i "ergydion" a chanolbwyntio ar y cryfderau o fewn cymunedau, eu hasedau a siapio'r amodau galluogi sy'n creu ymdeimlad o alluogedd ac yn rhoi'r grym i gymunedau i gyflawni newid a arweinir gan y gymuned. Bydd hyn yn gofyn am ymestyn diffiniad gweithredol presennol y Cyngor o wytnwch cymunedol.

Mae'r panel yn awgrymu fod y broses o greu dealltwriaeth a rennir o wytnwch cymunedol yn un lle mae partneriaid a chymunedau yn cymryd rhan ochr yn ochr â'r Cyngor. Byddai'r cyfranogiad hwn yn ddelfrydol o'r 'dechrau' i helpu i ffurfio'r ymagwedd ar y cyd o fath 'polisi' gan sicrhau fod hon yn broses ar y cyd a mabwysiadu gwir ymagwedd partneriaeth ar gyfer gwytnwch cymunedol.

Byddai nodi a yw hwn yn agenda Cyngor neu un sy'n seiliedig ar le yn ychwanegu mwy o eglurder wrth i'r Cyngor ddatblygu'r ddealltwriaeth hon ar y cyd.

Mewn perthynas â pharodrwydd sefydliadol mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd hyn yn gofyn am newid diwylliannol sylweddol. I fod yn effeithiol mae'r panel yn awgrymu fod angen i'r newid hwn gael ei ystyried a dylid ymdrin ag ef fel agenda Cyngor cyfan. Bydd y Cyngor yn awyddus i ystyried y math o ddatblygiad sefydliadol a rhaglen newid a all gefnogi'r trawsnewidiad hwn orau, gan gynnwys alinio gwasanaethau corfforaethol i gefnogi hyn.

Mae'r Cyngor mewn cyfnod cynnar ond cyffrous; mae ganddo'r cyfle i weithio gyda'i bartneriaid a chymunedau i greu gweledigaeth gymhellol a dealltwriaeth a rennir ar gyfer gwytnwch cymunedol all wedyn lywio sut yr eir ymlaen gyda'r gwaith hwn, gan gynnwys sut y caiff ei integreiddio gyda'r gwaith sy'n datblygu ar effaith a chanlyniadau. Mae'r Cyngor yn uchelgeisiol ac mewn lle da i ddechrau'r gwaith hwn.

**Meysydd i'w Gwella/Argymhellion – Creu Gwytnwch Cymunedol**

Mae'r Cyngor yn cydnabod fod angen iddo gymryd amser digonol i ddatblygu dealltwriaeth a rennir o beth mae'n ceisio ei gyflawni.

Mae rhai camau wedi eu cymryd i gael y Cyngor yn barod ar gyfer y newid hwn sy'n cynnwys ailalinio'r uwch dîm.

| | |
|---|---|
| 3. | Caiff y Cyngor ei annog i:<br><br>• Fuddsoddi amser mewn dysgu o arfer o fan arall a chynnwys ei gymunedau a'i bartneriaid mewn datblygu dealltwriaeth a rennir o wytnwch cymunedol.<br><br>• Deall a sefydlu'r prif adnoddau galluogi fel data, gweithlu, cyfathrebu a dull ymgysylltu a systemau digidol i gefnogi'r rhaglen newid. |

| | |
|---|---|
| | • Nodi cyfleoedd i brofi, dysgu ac ailadrodd yr ymagwedd cyn cynyddu.<br><br>• Ymgymryd ag ymagwedd Cyngor cyfan tuag at y newid, gan sicrhau fod pob rhan o'r Cyngor yn deall sut mae angen iddo addasu i gyflwyno'r newid diwylliannol a geisir. |

## 12 Arsylwadau eraill

Dim arsylwadau eraill.

## 13.0 Cefnogaeth i Wella

13.1 Pe dymunai'r Cyngor drafod unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen er mwyn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella, cysylltwch â Jo Hendy, Prif Swyddog Gwelliant CLlLC.

## 14.0 Cydnabyddiaeth

14.1 Hoffai'r panel a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddiolch i'r Cyngor, ei aelodau a'i swyddogion am y gefnogaeth wrth gydlynu ceisiadau am ddogfennau, ymatebion i ymholiadau, trefnu cyfarfodydd a gweithdai a darparu cefnogaeth ymatebol ar y safle. Yn benodol hoffent nodi'r gefnogaeth gan y swyddogion canlynol, gwerthfawrogwyd hynny yn fawr:

- Marc Crumbie – Pennaeth Archwilio Mewnol
- Emma Wilkins - Rheolwr Swyddfa'r Cabinet

Hoffai'r panel ddiolch hefyd i'r holl sefydliadau, partneriaid, staff, preswylwyr, busnesau, grwpiau a'r rhai eraill a gafodd eu cyfweld am eu mewnbwn a'u cyfraniadau gwerthfawr wrth gynnal yr asesiad perfformiad panel.